Page

# Grantiau Treftadaeth Gorwelion: £50miliwn i bum prosiect trawsnewidiol

13/07/2021



Safle'r parc morol newydd yn Plymouth. Credyd: Chris Gorman/Big Ladder Photography

O fynyddoedd yr Alban i arfordir de-orllewin Lloegr, mae'r syniadau treftadaeth mawr hyn yn hyrwyddo treftadaeth amgylcheddol, cymunedol a diwylliannol.

Rydym yn falch o gyhoeddi derbynwyr ein Grantiau Treftadaeth Gorwelion. Bydd mwy na £50 miliwn o gyllid yn cael ei ddyfarnu i bum prosiect trawsnewidiol ledled y DU.

Pan lansiwyd Grantiau Treftadaeth Gorwelion yn 2019, roeddem yn bwriadu ariannu syniadau a oedd yn datgloi posibilrwydd. O ddulliau ffermio arloesol i amgueddfa  gyntaf o'i math yn DU, mae'r prosiectau hyn yn gwneud yr union beth hwnnw.

> Mae pob un o'r pum yn rhannu rhinweddau uchelgais enfawr, cydweithredu sylweddol a'r posibilrwydd o fanteision sy'n newid bywydau pobl a lleoedd. Mae hwn yn ddiwrnod cyffrous i dreftadaeth y DU.
>
> *Ros Kerslake, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

Rydym wedi buddsodi yn:

## Cairngorms 2030: pobl a natur yn ffynnu gyda'i gilydd – £12,486,100



Credyd: Ronan Dugan/scotlandbigpicture.com

Wedi'i leoli ym Mharc Cenedlaethol mwyaf y DU, bydd y prosiect hwn yn cynnwys mwy na 45 o bartneriaid ymroddedig, yn amrywio o'r GIG i grwpiau rheoli Ucheldiroedd a cheirw. Byddant yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, gan ddarparu economi sy'n gweithio i bawb.

Bydd Cairngorms 2030 yn cadw'r dirwedd a'i bywyd gwyllt prin drwy ehangu coetiroedd, datblygu ffermio sy'n ystyriol o natur a defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy.

Bydd mwy o bobl yn gallu cael mynediad i'r ardal – er enghraifft drwy greu canolfan ddementia sy'n seiliedig ar natur. Bydd cymunedau'n gallu cymryd rhan mewn rhaglenni tyfu planhigion a ellir eu grymuso i lunio dyfodol gwyrddach.

## Peatland Progress: Gweledigaeth Newydd i'r Fens – £8,186,200

Bydd y prosiect yma, sy'n cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth Natur Swydd Bedford, Swydd Gaergrawnt a Swydd Northampton, yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth drwy ddod â 'haneri' gogledd a de'r Fen Fawr at ei gilydd.

Bydd ffermio gwlyb cynaliadwy yn diogelu priddoedd mawn, gan atal erydiad pridd drwy gloi carbon. Bydd y dull arloesol yma'n helpu i wella ansawdd d?r ac yn cefnogi bywyd gwyllt lleol.

Bydd Peatland Progress yn darparu swyddi a hyfforddiant newydd, a bydd pobl ifanc yn cael eu hysbrydoli i ymuno yn y camau amgylcheddol a welant ar garreg eu drws.

## Parc Morol Cenedlaethol Plymouth Sound – £9,582,100



Bydd parc morol cenedlaethol cyntaf y DU yn cael ei osod mewn amgylchedd unigryw lle mae'r fordaith fwyaf yn Ewrop, cychod pysgota, llongddrylliadau hanesyddol a gwelyau glaswellt môr bregus yn cydfodoli.

Bydd y prosiect yn chwyldroi'r ffordd y mae Plymouth yn rhyngweithio â'i dreftadaeth, gan hyrwyddo perthynas fwy cytûn â'r cefnfor a chreu cannoedd o swyddi.

Bydd yn adfer ac yn ail-bwrpasu dau adeilad rhestredig ac yn dyblu maint gwelyau glaswellt môr, gan gyfrannu at darged o ddi-garbon net erbyn 2030.

Bydd gan y parc yn y môr bum safle porth, gan gynnwys canolfan groeso a hyb llesiant. Bydd amrywiaeth o raglenni yn helpu pobl i gysylltu, yn y d?r ac oddi tano.

## Great Yarmouth Winter Gardens: Ail-ddychmygu Palas y Bobl – £9,977,100



Mae angen dybryd am atgyweirio'r unig erddi haearn bwrw a gwydr glan môr sydd wedi goroesi yn y wlad ac mae mewn perygl difrifol o golled.

Bydd y strwythur rhestredig Gradd II* yn cael ei adfer i'w hen ogoniant fel Palas y Bobl ar lan y môr Great Yarmouth, gan ddod â bywyd newydd i galon y dref. Bydd gan yr atyniad drwy gydol y flwyddyn erddi ac ardaloedd eistedd, ac maent yn cynnig ymlacio, addysg ac adloniant.

Bydd y gerddi yn garbon niwtral, a bydd partneriaethau gyda chwmnïau arlwyo a digwyddiadau yn darparu incwm cynaliadwy.

## Amgueddfa Caethwasiaeth Ryngwladol: Tanio'r Dychymyg a Gweithredu – £9,930,000


Credyd: Pete Carr

Bydd yr [Amgueddfa Gaethwasiaeth Ryngwladol yn Lerpwl] yn cael ei thrawsnewid o gasgliad o orielau i amgueddfa amlwg, y cyntaf o'i bath yn y DU. Mae ei symudiad i adeilad hanesyddol Dr Martin Luther King Jr yng nghanol adfywio'r dociau.

Bydd yr amgueddfa'n gweithio gyda'r gymuned leol a'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan gyfreithlondeb caethwasiaeth yn Lerpwl, ledled y DU, ac yn rhyngwladol. Drwy adrodd straeon heriol am gaethwasiaeth, a dathlu cyflawniad pobl ddu, bydd yn dod yn esiampl symbolaidd o obaith.

## Cefnogi syniadau mawr a datgloi posibiliadau

Datblygwyd Gwobrau Treftadaeth Gorwelion – a wnaed yn bosibl diolch i gyllid gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol – i gefnogi prosiectau arloesol a fydd yn chwyldroi treftadaeth y DU.

Ers y pandemig, mae'r uchelgais hwnnw wedi dod yn bwysicach fyth. Bydd y prosiectau hyn yn trawsnewid bywydau ac economïau, gan roi'r DU ar y blaen i brosiectau amgylcheddol, diwylliannol a threftadaeth mawr. Maent yn dangos hyder yn y sector treftadaeth i ailadeiladu a ffynnu.

Dywedodd Ros Kerslake, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Roeddem yn canolbwyntio ar gefnogi treftadaeth drwy gydol yr argyfwng yn 2020, felly rwy'n falch y gallwn nawr gyhoeddi gwobrau sy'n cefnogi syniadau mawr ac yn datgloi posibiliadau.

"Mae'r pandemig wedi dangos i ni i gyd yn glir beth sy'n bwysig i ni, yn enwedig mewn perthynas â natur a newid hinsawdd. Mae hyn yn flaenoriaeth enfawr i ni fel sefydliad, a bydd tri o'r prosiectau hyn yn drawsnewidiol i'r amgylchedd gwyrdd.

"Mae pob un o'r pum yn rhannu rhinweddau uchelgais enfawr, cydweithredu sylweddol a'r posibilrwydd o fanteision sy'n newid bywydau pobl a lleoedd. Mae hwn yn ddiwrnod cyffrous i dreftadaeth y DU."



## rdeb hefyd mewn ...

Pearson Park



## Cefnogi'r sector treftadaeth i addasu a ffynnu unwaith eto